# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU – IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH RANBARTHOL

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Llun, 9 Hydref 2023**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd D.Price** |
| **Cynghorwyr**: | E.Thomas, C.Anderson, R.Sinnett a/ac J.Hurley |
| **Parc Cenedlaethol Cynrychiolwyr:** | M.James |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | M.Wade, S.Davies, D.Thomas, D.John, D.Griffiths, S.Aldred-Jones a/ac L.McAndrew |

---

## 1. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 3. CYNLLUN GWEITHREDU'R CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL (CTRH)

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod dyletswydd ar Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru i baratoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh); cam cyntaf y gwaith hwn oedd llunio Cynllun Gweithredu, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Hydref 2023.

Atodwyd y Cynllun Gweithredu drafft fel Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd, ac roedd Swyddogion yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i gyflwyno'r Cynllun Gweithredu hwn i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol i'w gymeradwyo.

Cyflwynodd swyddogion y Cynllun Gweithredu drafft i'r Pwyllgor, a thynnwyd sylw at bwyntiau allweddol o ran nod y prosiect, y

pecynnau gwaith y mae eu hangen er mwyn cwblhau datblygiad y CTRh, y risgiau a nodwyd a'r amserlen ar gyfer cyflawni.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am gyd-destun polisi'r CTRh, a chawsant wybod am bwysigrwydd sicrhau bod y CTRh yn adlewyrchu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (Llwybr Newydd); a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â strategaethau a blaenoriaethau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol.

Esboniwyd bod dwy brif elfen i baratoi'r CTRh; Datblygu'r ddadl o blaid newid, a datblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Tynnodd swyddogion sylw at y meysydd gwaith allweddol canlynol mewn perthynas â'r ddwy brif elfen:

<u>Datblygu'r Ddadl o Blaid Newid</u>

(I'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 29 Chwefror 2024)

- Cynnwys Rhanddeiliaid;
- Diffinio'r Maes Astudio;
- Nodi'r Achos Strategol – cysylltu â'r holl bolisïau a fframweithiau sydd ar waith ar hyn o bryd;
- Nodi Problemau a Chyfleoedd – mapio'r sefyllfa bresennol o safbwynt trafnidiaeth ar draws y Rhanbarth, a chynnwys canfyddiadau Model Trafnidiaeth De Cymru;
- Datblygu Gweledigaeth y CTRh - gan nodi ai gweledigaeth bresennol y Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd oedd y weledigaeth gyffredinol o hyd, a diwygio hyn os oes angen;
- Datblygu amcanion SMART ar gyfer y CTRh - i gyd-fynd â'r blaenoriaethau yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru;
- Nodi Trefniadau Llywodraethu – roedd cymeradwyo a mabwysiadu'r CTRh yn hanfodol ar lefel Cyd-bwyllgor Corfforaethol ac Awdurdod Lleol;
- Datblygu Cynllun Rheoli Rhanddeiliaid ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd.

<u>Datblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol</u>

(Cyflwyno drafft cyntaf, cyn ymgynghoriad cyhoeddus, i Lywodraeth Cymru erbyn 29 Mai 2024)

- Nodi'r Ymyriadau a'r Polisïau Lefel Uchel;
- Cynnal adolygiad o gynlluniau o'r Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd presennol – deall beth oedd wedi cael ei gyflawni, yr hyn nad

oedd wedi'i gyflawni ac nad oedd ei angen mwyach, a'r hyn nad oedd wedi'i gyflawni ac roedd angen ei gynnwys yn y CTRh;

- Nodi methodoleg ar gyfer blaenoriaethu cynlluniau.

Dywedwyd bydd drafft terfynol y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2024; gyda'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol terfynol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 29 Mawrth 2025.

Cyfeiriodd swyddogion at ddatblygu'r Asesiad Lles Integredig, a soniwyd y byddai llawer o ymgynghori gyda'r cyhoedd a chyda rhanddeiliaid hefyd sy'n gysylltiedig â gwahanol gamau o ddatblygu'r CTRh. Ychwanegwyd y byddai rhai o'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r darnau hyn o waith yn heriol.

Cyflwynwyd y risgiau lefel uchel sy'n gysylltiedig â chyflawni Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer de-orllewin Cymru i'r Pwyllgor:

- Cytundeb gwleidyddol ar bolisïau a chanlyniadau lefel uchel – er bod y CTRh yn Gynllun Rhanbarthol, roedd angen iddo hefyd gyd-fynd â'r Awdurdodau Lleol unigol (nid cytundeb y cynllun yn unig, ond yr amserlenni ar gyfer y cymeradwyaethau drwy'r Awdurdodau Lleol unigol);
- Byddai cytundeb rhanbarthol ar restr gynlluniau Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (CCTRh) sydd wedi'u blaenoriaethu – er mwyn cynhyrchu'r rhestr hon, byddai angen i Swyddogion gael syniad o lefel y cyllid a fydd ar gael i gyflawni'r cynlluniau, fodd bynnag nid oedd hyn yn hysbys o hyd;
- Amserlenni heriol ar gyfer cyflwyno a mabwysiadu'r CTRh - gosodwyd y dyddiad cau penodol cyntaf ar gyfer cyflwyno CTRh terfynol (29 Mawrth 2025) beth amser yn ôl, ac ers hynny bu oedi yn gysylltiedig â'r ffrwd waith hon, megis yr oedi wrth i Lywodraeth Cymru ddarparu ei harweiniad. Fodd bynnag, nid oedd y dyddiad cau penodol wedi'i ddiwygio a nodwyd ei fod yn uchelgeisiol iawn o ran cyflawni darn ystyrlon o waith.
- Adnoddau sydd ar gael o fewn Awdurdodau Lleol i ddarparu'r CTRh, a nifer yr astudiaethau arbenigol i'w cyflawni wrth ddatblygu'r CTRh a'r diffyg cyllid i'w cyflawni – roedd adnoddau cyfyngedig ym mhob un o'r Awdurdodau Lleol, ac felly bydd angen comisiynu darnau penodol o waith. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oedd ffrydiau cyllid clir ar gael er mwyn gallu gwneud hyn.

Yn dilyn yr uchod, trafododd y Pwyllgor y risgiau a nodwyd yn fanylach; gan dynnu sylw yn benodol at y lefelau uchel o bryderon o ran amserlenni ac adnoddau.

Gofynnwyd i swyddogion roi amlinelliad o ran y cyllid presennol sydd ar gael er mwyn datblygu'r ffrwd waith hon. Dywedwyd, yn ogystal ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu £125k, mae rhywfaint o gyllid wedi'i neilltuo o fewn cyllideb Cyd-bwyllgorau Corfforaethol De-orllewin Cymru; er y byddai cost datblygu'r CTRh yn sylweddol uwch na hyn. Nodwyd bod sôn am gefnogaeth gan Trafnidiaeth Cymru (TfW), a phenodwyd y rhanbarth yn Swyddog Cydlynu o fewn TfW; Fodd bynnag, nid oedd llawer o gefnogaeth bellach y tu hwnt i hynny o ran helpu gyda'r ddarpariaeth.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod pwysigrwydd codi'r pryderon hyn i Lywodraeth Cymru. Awgrymwyd gofyn yn ffurfiol i Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch y materion hyn wrth gyflwyno'r Cynllun Gweithredu. Byddai trafodaeth bellach yn cael ei chroesawu ynghylch amserlenni ac adnoddau; er mwyn penderfynu a oedd unrhyw hyblygrwydd o ran yr amserlenni, ac i gael eglurder ynghylch unrhyw gyllid a chymorth ychwanegol gan Trafnidiaeth Cymru wrth symud ymlaen.

Yn ogystal â hyn, awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol cysylltu â Chyd-bwyllgorau Corfforaethol eraill ledled Cymru, trwy ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

**PENDERFYNWYD:**

- Cyflwyno'r Cynllun Gweithredu, a gynhwysir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol i'w gymeradwyo, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru;
- Wrth gyflwyno'r Cynllun Gweithredu i Lywodraeth Cymru, anfonir llythyr at y Gweinidog i fynd i'r afael â'r risgiau y tynnwyd sylw atynt yn y cynllun.
- Byddwn yn derbyn adborth gan Gyd-bwyllgorau Corfforaethol eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar gynnydd ehangach Cymru ar Gynllunio Gweithredu a chynnydd y CTRh ym mhob Rhanbarth.

4. **<u>BLAENRAGLEN WAITH</u>**

Darparwyd y Flaenraglen Waith ar gyfer yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol i'r Aelodau.

Cyfeiriwyd at yr angen am gyfarfod ychwanegol ar gyfer cyfnod yr hydref. Byddai'r Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu hyn mewn cysylltiad â'r Arweinwyr Trafnidiaeth ar gyfer y Rhanbarth.

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

## 5. EITEMAU BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag